Sgiliau i Ewrop

Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd

Mae cronfa ddata Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd (ESCO) yn dangos y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gael gwaith mewn crefftau penodol yn Ewrop.

Pan fydd wedi'i chwblhau, bydd y gronfa ddata yn cwmpasu yr holl alwedigaethau a'r cymwysterau yn aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

Beth gall wneud i ddysgwyr, gweithwyr a cheiswyr gwaith

Os ydych yn chwilio am swydd yn Ewrop, bydd cronfa ddata ESCO yn eich helpu i weld pa gyfleoedd gwaith sy'n cyd-fynd â'r sgiliau sydd gennych. Mae'n caniatáu ichi weld ba sgiliau a chymwysterau mae cyflogwyr yn Ewrop yn chwilio amdanynt ar gyfer swyddi penodol.

Beth gall wneud i gyflogwyr

Bydd ESCO yn eich helpu i gysylltu sgiliau a chymwysterau penodol â swydd yn eich cwmni a'i gwneud yn haws ichi wneud eich swyddi gwag yn agored i geiswyr gwaith yn Ewrop.

Beth gall wneud i gynghorwyr gyrfaoedd

Pan fydd ESCO yn gwbl weithredol, bydd yn gwneud marchnad lafur Ewrop yn agored.

Drwy ddefnyddio cronfa ddata ESCO, gall gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogaeth ledled Ewrop gyfnewid swyddi gwag.

Noder: Mae ESCO yn dal i gael ei ddatblygu. Nid yw'n gwbl weithredol eto.

Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae'r **Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd** yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau tramor. [EQF]

Mae **Europass** yn bortffolio o ddogfennau sy'n disgrifio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn modd sy'n ddealladwy ledled Ewrop. [Europass]

Mae'r **System Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol** yn helpu i nodi ac asesu pob math o ddysgu.

Mae'r **System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** yn helpu i roi hyder y gellir ymddiried mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop. [EQAVET]

Fframwaith yw'r **System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** sy'n cefnogi a chydnabod elfennau o ddysgu sy'n digwydd yn ystod ymweliadau astudio a lleoliadau gwaith dramor. [ECVET]

sgiliauiewrop.cymru

Sgiliau i Ewrop

Y System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol

Mae'r System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (EQAVET) yn rhoi hyder yn sicrwydd ansawdd rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop – mae'n creu cyd-ymddiriedaeth.

Mae EQAVET yn diffinio natur systemau sicrwydd ansawdd da, yn rhoi dangosyddion i bennu pa mor dda mae'r systemau sicrwydd ansawdd hynny'n perfformio, ac astudiaethau achos o arferion da.

Mae proses sicrwydd ansawdd y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio ag egwyddorion EQAVET.

Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae'r **Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd** yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau tramor. [EQF]

Mae **Europass** yn bortffolio o ddogfennau sy'n disgrifio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn modd sy'n ddealladwy ledled Ewrop. [Europass]

Mae'r **Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd** yn rhestru'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi penodol yn Ewrop. [ESCO]

Mae'r **System Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol** yn helpu i nodi ac asesu pob math o ddysgu.

Fframwaith yw'r **System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** sy'n cefnogi a chydnabod elfennau o ddysgu sy'n digwydd yn ystod ymweliadau astudio a lleoliadau gwaith dramor. [ECVET]

sgiliauiewrop.cymru

ColegauCymru CollegesWales · ecvet · European Qualifications Framework · EQAVET · europass · CQFW Credit & Qualifications Framework for Wales / Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru